



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (COFRESTRU BRYS AR GYFER GWEITHWYR CYMDEITHASOL) 2020

Ebrill 2020

Drwy hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan adrannau 73 (2) a (4), 75(3), 83(1) a (3), 83A, 86(1) a (4), 88(1)-(4), 91(2), 92(1) a (2), 106(1) a (2) a 107(1) a (2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i'r perwyl hwnnw, yn gwneud y Rheolau canlynol:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

RHAGARWEINIAD

- | | | |
|----|------------------------|---|
| 1. | Enwi, cychwyn a dirymu | 3 |
| 2. | Dehongliad | 3 |

RHAN II

CYMHWYSEDD I GOFRESTRU

- | | | |
|----|--|---|
| 3. | Unigolion a all wneud cais i gofrestru dan y Rheolau hyn | 5 |
|----|--|---|

RHAN III

CAIS I GOFRESTRU

- | | | |
|----|---|---|
| 4. | Ffurf a modd gwneud cais i gofrestru ar gofrestr dros dro | 6 |
| 5. | Cydnabod derbyn cais i gofrestru | 6 |
| 6. | Gwybodaeth a roddir i'r unigolyn | 6 |
| 7. | Datganiadau yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer | 6 |
| 8. | Y gofyniad i roi gwybodaeth ychwanegol | 7 |
| 9. | Caniatáu neu wrthod cais i gofrestru | 7 |

RHAN IV
COFRESTRU

10. Cofnod ar y gofrestr 8

RHAN V
DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD AM
NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

11. Dyletswydd i hysbysu 8

RHAN VI
HYD A DIDDYMIAD COFRESTRIAD

12. Hyd a diddymiad cofrestriad 9

RHAN VII
DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

13. Dileu cofnod o'r gofrestr drwy gytundeb 9
14. Marwolaeth person cofrestredig 10

RHAN VIII
HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU

15. Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas â chais i gofrestru 10

RHAN I

RHAGARWEINIAD

Enwi, cychwyn a dirymu

1. (1) Gellir dyfynnu'r Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru Brys ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol) 2020, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.
- (2) Bydd y Rheolau hyn yn parhau mewn grym am 28 niwrnod ar ôl i'r cofrestrydd gael cyngor ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru nad oes argyfwng yn bodoli mwyach, neu am gyfnod hwy, fel y pennir gan y cofrestrydd.

Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall:
 - ystyr “**Deddf**” yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;
 - mae'r “**rhestr wahardd**” yn rhestr a ddiffinnir yn adran 117(3) y Ddeddf;
 - ystyr “**Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol**” yw'r côd ymarfer sy'n cyflwyno'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Adran 112(1)(a) y Ddeddf;
 - ystyr “**gorchymyn cofrestru amodol**” yw gorchymyn a wneir gan banel addasrwydd i ymarfer sy'n gosod amodau ar gofrestrriad person cofrestredig dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer;
 - ystyr “**diwrnodau**” yw diwrnodau calendr;
 - ystyr “**proses electronig**” yw proses sydd wedi ei chymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gyfnwid gwybodaeth yn electronig rhwng GCC ac unigolyn sy'n gwneud cais i gofrestru dan y Rheolau hyn;
 - ystyr “**argyfwng**” yw argyfwng o'r math sy'n cael ei ddisgrifio yn adran 19(1)(a) Deddf Argyfyngau Sifil 2004, wedi'i ddarllen ag isadran (2)(a) a (b) yr adran honno, y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i'r cofrestrydd y mae wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd;
 - mae “**cyflogwr**” yn cynnwys asiantaethau cyflogi, pobl hunangyflogedig ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdanynt;
 - ystyr “**cofnod**” yw'r manylion sydd wedi eu cofnodi ar y gofrestr dros dro sy'n cael ei chadw gan Gofal Cymdeithasol Cymru dan adran 83A y Ddeddf;

ystyr “**Panel Addaswydd i Ymarfer**” yw panel o’r enw hwnnw sy’n cael ei sefydlu gan Gofal Cymdeithasol Cymru i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag addaswydd personau cofrestredig i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;

ystyr “**Rheolau Addaswydd i Ymarfer**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addaswydd i Ymarfer) 2020;

ystyr “**unigolyn**” yw unigolyn sy’n gwneud cais i gofrestru’n weithiwr cymdeithasol dan y Rheolau hyn;

ystyr “**hysbysiad**” yw gwybodaeth yn ymwneud â chofrestriad person cofrestredig sy’n cael ei rhoi gan y cofrestrydd neu’r person cofrestredig (neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd);

ystyr “**cofrestr**” yw’r gofrestr dros dro sy’n cael ei chadw gan Gofal Cymdeithasol Cymru dan adran 83A y Ddeddf;

ystyr “**cofrestrydd**” yw’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod ar y gofrestr yn ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr “**corff perthnasol**” yw:

- (a) y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;
- (b) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- (c) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;
- (d) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon;
- (e) corff y tu allan i’r Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a fyddai, yng Nghymru, yn cael eu rheoleiddio gan Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (f) corff rhagnodedig;

ystyr “**gorchymyn dileu**” yw gorchymyn a wneir gan banel addaswydd i ymarfer i ddileu cofrestriad unigolyn cofrestredig gan y Rheolau Addaswydd i Ymarfer;

ystyr “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yw’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru gynt;

ystyr “**gwaith cymdeithasol**” yw gwaith cymdeithasol sy’n ofynnol mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaeth iechyd, addysg neu gymdeithasol a ddarperir yng Nghymru;

ystyr “**gweithiwr cymdeithasol**” yw’r ystyr a roddir iddo gan adran 79(1) y Ddeddf, sef unigolyn sy’n ymgymryd â gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru;

ystyr “**gorchymyn atal dros dro**” yw gorchymyn a wneir gan banel addaswydd i ymarfer i atal dros dro gofrestriad y person cofrestredig dan y Rheolau Addaswydd i Ymarfer;

- (2) Yn y rheolau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall:
- (a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, a geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
 - (b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu'r rhan sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
 - (c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;
 - (d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.

RHAN II

CYMHWYSEDD I GOFRESTRU

Unigolion a all wneud cais i gofrestru dan y Rheolau hyn

3. (1) Ar wahân i'r hyn a amodir ym mharagraff (2), gall Gweithiwr Cymdeithasol Cymwysedig a gofrestrwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru gynt, ac a ymddeolodd neu a adawodd y gofrestr ar ddyddiad ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, gofrestru gan y Rheolau hyn.
- (2) Nid yw'r canlynol yn gymwys i gofrestru dan y Rheolau hyn:
- (a) unigolyn sy'n destun gorchymyn dileu a wnaed gan Banel Addasrwydd i Ymarfer;
 - (b) unigolyn sy'n destun gorchymyn atal dros dro a wnaed gan Banel Addasrwydd i Ymarfer, ac nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi dod i ben;
 - (c) unigolyn y cafodd ei (h)enw ei ddileu oddi ar y gofrestr drwy gytundeb dan reol 9 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Archwiliad) 2017 neu'r un rheol dan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Archwiliad) 2018.
- (3) Mae'n bosibl na fydd y canlynol yn gymwys i gofrestru dan y Rheolau hyn:
- (a) unigolyn a oedd yn destun gorchymyn cofrestru amodol a wnaed gan Banel Addasrwydd i Ymarfer pan adawodd y gofrestr;

RHAN III

CAIS I GOFRESTRU

Ffurf a modd gwneud cais i gofrestru ar gofrestr dros dro

4. (1) Gall unigolyn sy'n ceisio cofrestru dan y Rheolau hyn wneud cais i gofrestru'n ysgrifenedig neu drwy broses electronig i Reolwr Cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Rhaid i'r unigolyn roi ei (h)enw Llawn, dyddiad geni, rhif ffôn ac enw'r sir yng Nghymru mae'n bwriadu ymarfer ynddi.

Cydnabod derbyn cais i gofrestru

5. (1) Bydd cydnabyddiaeth o dderbyn cais i gofrestru yn cael ei rhoi'n ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen saith niwrnod o dderbyn y cais.

Gwybodaeth a roddir i'r unigolyn

6. (1) Wedi i'w (h)enw gael ei roi ar y gofrestr dros dro, bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig:
 - (a) am y gofyniad i ddatgan unrhyw rai o'r materion y cyfeirir atynt yn Rheol 7;
 - (b) am yr angen i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac y gallai methu cydymffurfio ag unrhyw safon yn y Côd arwain at ddiddymu'r cofrestriad;
 - (c) y gallai cofrestriad dan y Rheolau hyn gael ei ddiddymu ar unrhyw adeg, ac y bydd yn para hyd at ddiwedd yr argyfwng yn unig.

Datganiadau yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer

7. (1) Rhaid i'r unigolyn ddatgan i Gofal Cymdeithasol Cymru:
 - (a) unrhyw fater a all fwrw amheuaeth ar addasrwydd corfforol a meddyliol yr unigolyn i ymarfer mewn gwaith cymdeithasol;
 - (b) manylion am unrhyw gollfarnau troseddol, rhybuddion ffurfiol a roddwyd gan yr Heddlu (heblaw am gollfarnau neu rhybuddion gwarchoddedig) ac unrhyw achosion troseddol sydd ar ddod lle mae'r unigolyn wedi'i gyhuddo/chyhuddo'n ffurfiol) ers i'r unigolyn adael y gofrestr;

- (c) manylion am unrhyw orchymyn atal, gorchymyn peidio ag ymyrryd neu orchymyn tebyg arall a wnaed, heblaw ar ôl collfarn ar gyfer trosedd;
- (d) manylion am unrhyw benderfyniad gan gorff perthnasol yn ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer;
- (e) os yw wedi'i gynnwys/chynnwys ar unrhyw restr wahardd;

Y gofyniad i roi gwybodaeth ychwanegol

8. (1) Gall y cofrestrydd, at ddibenion penderfynu a ddylai'r unigolyn gael ei gofrestru/chofrestru neu barhau i gael ei gofrestru/chofrestru:
 - (a) pan fydd angen mwy o wybodaeth ar y cofrestrydd yn ymwneud ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheol 7, gofyn am y wybodaeth honno gan yr unigolyn, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy broses electronig, y mae'n rhaid i'r unigolyn ei darparu cyn pen cyfnod o 14 niwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud; ac/neu
 - (b) ofyn am wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd gan unrhyw unigolyn neu ffynhonnell arall.
- (2) Os gwneir cais gan y cofrestrydd, rhaid i'r unigolyn ddarparu ffurflen wedi'i llenwi, y dogfennau gofynnol a'r ffi briodol, at ddibenion cael tystysgrif fanwl o'i gofnod/chofnod troseddol, sy'n cael ei galw'n ddatgeliad manwl, dan adran 115(1) Deddf yr Heddlu 1997.
- (3) Pan fydd y cofrestrydd yn cael gwybodaeth dan baragraff (1) (b) neu (2) uchod, rhoddir gwybod i'r unigolyn bod y wybodaeth wedi dod i law, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd roi sylwadau ar y wybodaeth honno, a rhaid i'r unigolyn roi unrhyw sylwadau cyn pen cyfnod o 14 niwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl gwneud cais am y wybodaeth honno.

Caniatáu neu wrthod cais i gofrestru

9. (1) Gall cofrestriad gael ei ganiatáu a pharhau yn ystod cyfnod yr argyfwng os yw'r cofrestrydd o'r farn bod yr unigolyn yn unigolyn addas, priodol â phrofiad addas i gofrestru'n weithiwr cymdeithasol mewn perthynas â'r argyfwng.
- (2) Gall cofrestru fod yn ddarostyngedig i amod neu amodau, fel y mae'r cofrestrydd yn ei ystyried yn briodol.
- (3) Gall y cofrestrydd amrywio neu ddiddymu unrhyw amod(au) y mae cofrestriad unigolyn yn ddarostyngedig iddo/iddynt, neu ychwanegu amod

neu amodau newydd ar unrhyw adeg, drwy roi gwybod i'r unigolyn yn ysgrifenedig.

- (4) Gall y cofrestrydd wrthod neu ddiddymu cofrestriad:
 - (a) o ganlyniad i ddatgan un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheol 7;
 - (b) os bydd yr unigolyn wedi methu darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani dan Reol 8(1)(a);
 - (c) o ganlyniad i wybodaeth a ddarperir dan Reol 8(1)(b) neu 8(2);
 - (d) os bydd yr unigolyn wedi methu cydymffurfio â chais gan y cofrestrydd dan Reol 8(2).
- (5) Ni all unigolyn y mae ei gais/chais i gofrestru yn cael ei wrthod dan y Rheolau hyn, neu y caiff ei gofrestriad/chofrestriad ei ddiddymu, apelio i Banel Apeliadau Cofrestru.¹

RHAN IV

COFRESTRU

Cofnod ar y gofrestr

10. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn caniatáu cais i gofrestru dan y Rheolau hyn, caiff cofnod ei wneud ar y gofrestr dros dro i weithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru dan Adran 83A y Ddeddf.
- (2) Bydd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cynnwys unrhyw amod neu amodau y mae'r cofrestriad yn ddarostyngedig iddo/iddynt.

RHAN V

DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD AM NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

Dyletswydd i hysbysu

11. (1) Rhaid i unigolyn, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth berthnasol.
- (2) Mae'r newidiadau y mae angen hysbysu yn eu cylch yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd wrth wneud cais i gofrestru gan y Rheolau hyn a gwybodaeth y mae'n rhaid ei datgan dan Reol 7.

¹ Nid yw'r hawl i apelio dan adran 101 y Ddeddf yn berthnasol i wrthod cais i gofrestru dan y Rheolau hyn.

- (3) Pan fydd yr hysbysiad yn gofyn am newid i enw'r unigolyn ar y gofrestr, gall y cofrestrydd ofyn bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i fodloni Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch cywirdeb y wybodaeth sydd i'w chofnodi ar y gofrestr, a gall ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn gyflwyno Affidafid, tystysgrif briodas neu unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hystyried yn briodol mewn unrhyw achos.
- (4) Gall y cofrestrydd ofyn am wybodaeth gan unigolyn sy'n ymwneud â'i (h)addasrwydd i ymarfer, y mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig. Rhaid i'r unigolyn y mae'r cais wedi'i gyfeirio ato/ati, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a chyn pen y cyfnod a bennir yn y cais ysgrifenedig, ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.
- (5) Gall methu cydymffurfio â pharagraffau (1), (2), (3) neu (4) y Rheol hon arwain at ddiddymu cofrestriad yr unigolyn.

RHAN VI

HYD A DIDDYMIAD COFRESTRIAD

Hyd a diddymiad cofrestriad

12. (1) Yn ddarostyngedig i ddiddymu dan Reolau 9 ac 11 neu dan baragraff (2) y Rheol hon neu ddiddymu dan Ran VII, bydd cyfnod yr unigolyn ar y gofrestr yn parhau mewn grym:
 - (a) nes bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig nad yw'r argyfwng yn bodoli mwyach; ac
 - (b) o ganlyniad i gyngor Gweinidogion Cymru y cyfeirir ato yn (a), y caiff hysbysiad ei anfon at yr unigolyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru, i roi gwybod y daw cofrestriad yr unigolyn i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.
- (2) Gall y cofrestrydd ddiddymu cofrestriad unigolyn ar unrhyw adeg am unrhyw reswm, gan gynnwys pan fydd y cofrestrydd yn amau bod addasrwydd unigolyn i ymarfer wedi'i niweidio.
- (3) Ni all unigolyn y mae'r cofrestrydd yn diddymu ei gofrestrriad/chofrestriad apelio yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd.²

² Nid yw'r hawl i apelio dan adran 101 y Ddeddf yn berthnasol i benderfyniadau'r cofrestrydd i ddiddymu neu ddileu cofrestriad person cofrestredig dan y Rheolau hyn.

RHAN VII

DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

Dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb

13. (1) Gall unigolyn nad yw'n dymuno ymarfer yn weithiwr cymdeithasol dan y Rheolau hyn mwyach wneud cais i'w gofnod/chofnod gael ei ddileu o'r gofrestr.
- (2) Pan fydd unigolyn yn gwneud cais i'w gofnod/chofnod gael ei ddileu o'r gofrestr neu ran o'r gofrestr, bydd y cofrestrydd yn dileu'r cofnod hwnnw o'r gofrestr.
- (3) Rhaid i'r cais gael ei wneud i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, a rhaid iddo gynnwys enw'r unigolyn, ei r(h)if cofrestru, y rheswm dros wneud cais i ddileu'r cofnod o'r gofrestr a manylion cyswllt.
- (4) Bydd y cofrestrydd yn rhoi hysbysiad o'r penderfyniad i ddileu cofnod o'r gofrestr i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef/hi yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig cyn pen 28 niwrnod o dderbyn y cais.
- (5) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
 - (a) cyflogw(y)r hysbys diwethaf yr unigolyn (os oes un/rhai);
 - (b) Llywodraeth Cymru;yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, nad yw'r unigolyn wedi'i gofrestru/chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru mwyach.

Marwolaeth person cofrestredig

14. (1) Pan fydd unigolyn sydd wedi'i gofrestru/chofrestru dan y Rheolau hyn wedi marw, rhaid i'r cofrestrydd ddileu'r cofnod yn ymwneud â'r unigolyn hwnnw cyn pen 14 niwrnod o dderbyn tystiolaeth sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd.

RHAN VIII

HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU

Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas â chais i gofrestru

15. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu cymeradwyo cais i gofrestru, rhaid i'r cofrestrydd roi gwybod i'r unigolyn am y penderfyniad, yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.
- (2) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru, diddymu cofrestriad, pennu amod ar gofrestru neu diddymu neu amrywio amod ar gofrestru, rhaid i'r cofrestrydd roi gwybod i'r unigolyn:

- (a) am y penderfyniad; a'r
 - (b) rhesymau dros y penderfyniad;
- yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, cyn pen saith niwrnod o wneud y penderfyniad.
- (3) Gall Gofal Cymdeithasol hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, cyn pen saith niwrnod o'r penderfyniad dan baragraff (1) neu (2) y Rheol hon:
- (a) cyflogw(y)r hysbys diwethaf yr unigolyn (os oes un/rhai);
 - (b) Llywodraeth Cymru;

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



Mick Giannasi
Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru

Dyddiad

31.03.20